## SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN - FFYNGAU

Cyfeiriwch at First Nature i gael gwybodaeth fanylach a disgrifiadau o'r rhywogaethau

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**.
Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.


Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

Defnyddiwyd pob llun gyda chaniatâd.

**DS.** Mae pob cap cwyr, a holl ffyngau glaswelltirol eraill yn grŵp â blaenoriaeth i'w harolygu ac ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

| Rhywogaethau Adran 7 | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| *Armillaria ectypa* ffwng mêl y gors  © Phillip Jones | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir - Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld mewn cynefinoedd gwlyb, ar dir sydd â chyfoeth o fwynau.<br>**Statws presennol:** Yr unig safle hysbys yn y sir yw SoDdGA Cors Ffrwd. Rheolir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru. Fe'i gwelwyd ddiwethaf yn 2015.<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** Diffyg dealltwriaeth o'i gofynion ecolegol. | • Ystyried yr effaith bosibl os oes angen cael gwared â phrysgwydd yng Nghors Ffrwd |
| *Clafaria zollingeri*- ffwng cwrel dulas  © Isabel Macho | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir - i'w chael mewn glaswelltiroedd heb eu gwrteithio, gan gynnwys lawntiau domestig a mynwentydd, yn ogystal â glaswelltir lled-naturiol,<br>**Statws presennol:** Cafwyd hyd iddi ar nifer o safleoedd yn y sir, gan gynnwys Eglwys Pen-boyr, Eglwys Abergorlech a safle yn Felin-gwm.<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** Y prif resymau dros y dirywiad yw dulliau amaethu dwys (yn bennaf defnyddio ffosfforws) a cholli cynefinoedd a newidiadau i waith cynnal a chadw mynwentydd. Hefyd mae esgeuluso glaswelltiroedd gan beri i'r borfa dyfu'n fras yn cyfyngu ar y modd y mae'r rhywogaeth yn dwyn ffrwyth, er nad yw'n eglur a yw hyn yn effeithio ar y rhan o'r ffwng sydd o dan y ddaear. | • Esbonio wrth geidwaid mynwentydd sut i reoli glaswellt llawn ffyngau yn briodol. |
| *Hericium erinaceus*- pigau barfog  © Isabel Macho | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir?<br>**Statws presennol:** Dim ond ar un safle yn y sir y cafwyd hyd iddi, sef Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn 2021.<br>• Gwelir y ffrwythgyrff ar goed sydd wedi'u difrodi neu eu torri i lawr mewn hen goetir (collddail yn bennaf)<br>• Rhestrwyd o dan Atodlen 8 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ac yn brin yn y DU.<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** | • Mae angen gadael lonydd i'r boncyff y mae'n tyfu arno. |
| *Hohenbuehelia culmicola*— madarch y moresg | • **Cynefin cysylltiedig:** yr arfordir - rhywogaeth brin a gysylltir â thwyni symudol. Mae'n tyfu ymhlith y glaswellt mwy sy'n cytrefu'r twyni. Mae'r cynefin hwn wedi dirywio wrth i dwyni sefydlogi.<br>**Statws presennol:** Cofnodwyd ar system Twyni Pen-bre yn 1995.<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** Rheolaeth amhriodol ar dwyni arfordirol. | • Trosglwyddo gwybodaeth i geidwaid/contractwyr arfordirol sy'n rheoli helyg y môr.<br>• Dylid ei ystyried yn rhan o unrhyw brosiectau i adfywiogi twyni. |

| | | |
|---|---|---|
| <br>© Phillip Jones | | |
| *Hypocreopsis rhododendri* - menyg cyll<br><br>© Jon Hudson | • **Cynefin cysylltiedig:** Yn y DU mae'n tyfu fel rheol ar fonion cyll gwywedig sy'n dal i sefyll, ond mae'r rhywogaeth wedi'i chofnodi hefyd ar ganghennau cyll byw ac ar ganghennau cyll sydd wedi'u tocio yn ogystal ag ar ganghennau byw a gwywedig drain duon, helyg a rhosod gwyllt. Credir bod y rhywogaeth hon yn un barasitig sy'n tyfu ar *Hymenochaete corrugata* (Cramen ludiog) sef rhywogaeth a welir yn fynych ar fonion cyll sy'n gwywo neu sydd wedi gwywo.<br>**Statws presennol:** Cafwyd hyd i *H. rhododendri* mewn nifer fach o safleoedd yn Sir Gaerfyrddin, yn fwyaf diweddar ym mharc gwledig Llyn Llech Owain ac yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** Gorbori; prysgoedio; clirio prysgwydd. | • Dylid cynnal arolwg o safleoedd eraill lle ceir clystyrau o goed cyll/drain duon.<br>• Llunio taflen wybodaeth i'w chylchredeg i gontractwyr/rheolwyr coedwigoedd er mwyn ceisio cael cofnodion a thynnu sylw at rywogaethau wrth glirio prysgwydd. |
| *Microglossum olivaceum* — tafod daear bach melynwyrdd<br><br>© Sam Bosanquet | • **Cynefin cysylltiedig:** • Tyf ar hen laswelltiroedd lled-naturiol mewn amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys glaswelltiroedd asidaidd ar dir uchel, twyni tywod, glaswelltiroedd niwtral a chynefinoedd o wneuthuriad dyn fel mynwentydd.<br>**Statws presennol:** Fe'i cofnodwyd ar draws y sir, ond enwedig o amgylch Dre-fach Felindre.<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** Y prif resymau dros y dirywiad yw dulliau amaethu dwys (yn bennaf defnyddio ffosfforws a maetholion eraill) a cholli cynefinoedd. Hefyd mae esgeuluso glaswelltiroedd gan beri i'r borfa dyfu'n fras yn cyfyngu ar y modd y mae'r rhywogaeth yn dwyn ffrwyth, er nad yw'n eglur a yw hyn yn effeithio ar y rhan o'r ffwng sydd o dan y ddaear. | • Monitro safleoedd presennol a hysbysu rheolwyr tir sut i reoli glastir er mwyn gwarchod y rhywogaeth hon. |
| *Phellodon tomentosus* — ffwng draenog<br><br>© Elizabeth Holden | • **Cynefinoedd cysylltiedig:** microgynefinoedd o fewn coed llydanddail a phinwydd (cloddiau, llwybrau, ochrau traciau o fewn coedwigoedd).<br>• Un cofnod hanesyddol ar gwr planhigfa yng Nghynwyl Elfed<br>**Statws presennol:** anhysbys<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** Bygythiadau i ficrogynefin (sathru, cywasgu gan gerbydau; cynnal a chadw traciau; tipio); torri coed cynhaliol; gorfaethu. | • Ailymweld â safle Cynwyl Elfed. |
| *Phylloporus pelletieri* - boled tagellau aur<br><br>© Justin Smith | • **Cynefin cysylltiedig:** choed llydanddail fel ffawydd ynghyd â chonwydd fel ffynidwydd a phinwydd, ac yn gysylltiedig a phriddoedd asidaidd neu dywodlyd.<br>• Wedi'i chofnodi yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las ac yng Nghoed y Strade, Llanelli.<br>**Statws presennol:**<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** Mae llygredd aer a phlanhigfeydd coedwigaeth yn fygythiadau i'r rhywogaeth hon. | • Arolygu safleoedd addas eraill. |
| **Rhywogaethau A7 nad ydynt ond wedi'u cofnodi yn ardal PCBB o Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, ond a allai gael eu cofnodi ar safleoedd addas.** | | |
| *Hygrocybe spadica* - cap cwyrog melynddu | • **Cynefin cysylltiedig:** glaswelltir heb ei wella, dim ond unwaith y mae wedi'i chofnodi yn y sir, a hynny ym Mhal y Cwrt, Trap. Yn Sir Benfro mae'r rhywogaeth hon wedi'i chofnodi ar laswelltiroedd sy'n cael eu pori ac sy'n gyforiog o ffyngau. Mae'r porfeydd yn rhai asidaidd neu niwtral sydd wedi eu lled-wella. | |

| | | |
|---|---|---|
| <br>© David Harris | **Statws presennol:** anhysbys<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** • Newidiadau o ran rheoli glaswelltir gan gynnwys defnyddio gwrteithiau a llai o bori. | |
| *Entoloma bloxamii*- tagell binc fawr las<br><br>© John Bailey | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwelir y rhywogaeth hon ar hen laswelltiroedd lled-naturiol, yn enwedig glaswelltiroedd calchaidd.<br>• Cafodd y ffwng hwn, sydd wedi'i gyfyngu'n llwyr i safleoedd â lefelau maeth isel, ei weld ddiwethaf ger hen waith calch ar ucheldir ym Mrest Cwm Llwyd a Thro'r Derlwyn yn 2006.<br>**Statws presennol:** anhysbys<br>**Tueddiadau:**<br>**Bygythiadau:** Newidiadau o ran rheoli glaswelltir gan gynnwys defnyddio gwrteithiau a llai o bori. | • Arolygu safleoedd addas. |